**Rhif:** WG32046

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Fframwaith Gweithredu Drafft ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol

Gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol

Dyddiad cyhoeddi: 05 Mehefin 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Gorffennaf 2017

OGL © Hawlfraint y Goron 2017

# Fframwaith Gweithredu Drafft ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am eich barn am y cynigion sydd yn y 'Fframwaith Gweithredu drafft - gwella canlyniadau i ddysgwyr sy'n defnyddio'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.' |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **31 Gorffennaf 2017** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>*Evaluation of education provision for children and young people educated outside the school setting – Final report* (Llywodraeth Cymru, 2013)<br><br>*Addysg Heblaw yn yr Ysgol: arolwg arfer dda* (Estyn, 2015)<br><br>*Addysg heblaw yn yr ysgol* (Estyn, 2016)<br><br>*Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2013–2014* (Estyn, 2015)<br><br>*Yr Hawl i Ddysgu: Cefnogi plant a phobl ifanc mewn unedau cyfeirio disgyblion* (Comisiynydd Plant Cymru, 2014)<br><br>*Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (Llywodraeth Cymru, 2015)<br><br>*Dyfodol Llwyddiannus - Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2015)<br><br>*Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol* (Llywodraeth Cymru, 2015)<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau |

| | |
|---|---|
| **Manylion cysylltu** | Am ragor o wybodaeth:<br><br>Cangen Lles Disgyblion<br>Cymorth i'r Is-adran Dysgwyr<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: WellbeingShare@cymru.gsi.gov.uk |
| **Diogelu data** | **Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.**<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn |

am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu’r wybodaeth.

# Cynnwys


**Cefndir** **2**
Beth yw addysg heblaw yn yr ysgol? 3

**Y Fframwaith Gweithredu** **4**
Mynd ati fesul cam 4
Darpariaethau allweddol 4
Paneli addysg heblaw yn yr ysgol 4
Hyfforddiant i bwyllgorau rheoli 5
Fframweithiau comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol 5
Rhannu data a gwybodaeth 6

**Rhaglenni/diwygiadau addysg ehangach** **8**
Dyfodol Llwyddiannus 8
Cydweithio a gwaith partneriaeth 8

**Digwyddiadau ymgynghori** **10**
Ymatebion 10

**Atodiad: Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol – y cynigion llawn** **11**

## Cefndir

Yn 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru Brifysgol Caeredin i ymchwilio i broses gwahardd disgyblion o ysgolion yng Nghymru ac i ddarparu, cynllunio a chomisiynu'r ddarpariaeth addysg i blant a phobl ifanc mewn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Roedd yr adroddiad yn dangos bod y ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys y lleoedd sydd ar gael, a natur a phwrpas y ddarpariaeth, yn amrywio'n fawr o'r naill awdurdod i'r llall. Roedd problemau gyda'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ar draws y sector, ond yn benodol, roedd ansawdd y cwricwlwm sydd ar gael a'r anawsterau o ran darparu cwricwlwm cyflawn yn broblem.

Yn 2014, adroddodd Comisiynydd Plant Cymru yn benodol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn *Yr Hawl i Ddysgu*. Efallai mai'r hyn a oedd yn peri'r pryder mwyaf oedd barn y Comisiynydd Plant nad oedd sefyllfa'r Unedau Cyfeirio Disgyblion wedi gwella yn y chwe blynedd ers i'r swyddfa ddechrau casglu tystiolaeth yn eu cylch. Casgliad yr adroddiad oedd bod y ddarpariaeth ddysgu ar draws yr Unedau hyn yn anghyson a'i bod, i rai dysgwyr sy'n eu mynychu, mewn gwirionedd yn cael effaith negyddol ar eu lles.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Estyn 2013/14 ym mis Ionawr 2015, ac roedd yn tynnu sylw at bryderon sylweddol ynglŷn â'r canlyniadau i ddysgwyr a oedd yn defnyddio darpariaeth yr Unedau Cyfeirio Disgyblion. Roedd canlyniadau arolygiadau o'r Unedau'n amrywio'n fawr ac, ac eithrio ambell Uned Cyfeirio Disgyblion, roeddent ar y cyfan yn waeth nag mewn unrhyw sector arall.

Yn sgil pwysau'r dystiolaeth am addysg heblaw yn yr ysgol, ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn benodol, mae angen datblygu ymagwedd strategol i fynd i'r afael â methiannau, ac i hybu a lledaenu'r agweddau cadarnhaol sydd ar waith yn y sector.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen addysg heblaw yn yr ysgol yn ym mis Medi 2015, gyda'r nod o ddatblygu atebion ymarferol i argymhellion yr adroddiadau hyn. Cadeirydd y Grŵp oedd cyn Brif Arolygydd Estyn, Ann Keane, ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Leol, awdurdodau lleol, ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion, Estyn a Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Rhannwyd gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen addysg heblaw yn yr ysgol yn ddau gam. Yn ystod y cam cyntaf, canolbwyntiwyd ar Unedau Cyfeirio Disgyblion, ac yn ystod yr ail gam ar ddarpariaeth ehangach addysg heblaw yn yr ysgol.

Drwy weithdai mewn cynadleddau Unedau Cyfeirio Disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol, nodwyd chwe phrif faes ar gyfer gwella, sef:

Arweinyddiaeth;
Atebolrwydd;
Adnoddau;
Strwythurau:
Lles Dysgwyr; a,
Deilliannau.

Mae cyfres o gynigion wedi'u datblygu yn ystod ystyriaethau grŵp Gorchwyl a Gorffen addysg heblaw yn yr ysgol, ac wrth drafod â'r rhai a oedd yn bresennol yn y cynadleddau, gan gadw'r prif feysydd hyn mewn cof.

Er hwylustod, mae atodiad 1 yn cynnwys manylion y 34 cam a gynigir a pha rai o'r argymhellion a gynigiwyd i Lywodraeth Cymru y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy.

## Beth yw addysg heblaw yn yr ysgol?

Addysg a ddarperir i ddiwallu anghenion penodol yw addysg heblaw yn yr ysgol a hynny ar gyfer disgyblion sydd, am ba reswm bynnag, yn methu â mynychu un o ysgolion y brif ffrwd neu ysgol arbennig. Yn ôl y gyfraith, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Mae’r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, i raddau, yn ymateb i wahardd disgybl o'r ysgol. Gallai hyn gynnwys gwaharddiad disgyblu ffurfiol, neu leoli disgybl mewn darpariaeth fel hyn yn hytrach na’i wahardd. Gellir defnyddio addysg heblaw yn yr ysgol hefyd am resymau iechyd a diogelwch, os ystyrir nad yw addysg yn un o ysgolion y brif ffrwd yn addas i grwpiau penodol, megis merched ifanc beichiog.

Plant a phobl ifanc mewn addysg heblaw yn yr ysgol, yn enwedig mewn unedau cyfeirio disgyblion, yw rhai o'r dysgwyr mwyaf agored i niwed. Byddant yn aml yn dod o gefndir cythryblus a heriol. Byddant yn aml yn wynebu chwalfa deuluol a phroblemau iechyd meddwl, ac yn aml yn agored i gamddefnyddio sylweddau a thrais domestig. Nid yw'n syndod felly bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn eu cael eu hunain yn dilyn patrymau ymddwyn negyddol sy'n effeithio ar eu dysgu, ac, o ganlyniad, bod eu deilliannau dysgu'n llai na chadarnhaol.

O dan Ddeddf Addysg 2002 a Mesur Addysg a Sgiliau 2009, rhoddir y pŵer i gyrff llywodraethu gomisiynu gwasanaethau allanol. Gellir estyn y pŵer hwn i wasanaethau o natur addysgol. Bwriedir i'r darpariaethau yn y gyfraith alluogi cyrff llywodraethu i gyflawni eu cyfrifoldebau gyda golwg ar Lwybrau Dysgu 14-19. Dim ond pan na fydd yr ysgol yn gallu diwallu anghenion cwricwlaidd y dysgwr y dylid defnyddio'r gwasanaethau hyn h.y. drwy ddarparu pynciau galwedigaethol neu arbenigol.

Mae nifer o ysgolion wedi dechrau comisiynu gwasanaethau sy'n cael eu galw'n 'Ddarpariaeth Amgen'. Mae'n bwysig nodi nad yw'r term 'Darpariaeth Amgen' wedi'i diffinio yng nghyfraith Cymru. Mae defnyddio'r term hwn ochr yn ochr ag addysg heblaw yn yr ysgol wedi achosi dryswch yn y sector ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am y gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio.

*Ni fu'n fwriad polisi Llywodraeth Cymru erioed i ysgolion a'u cyrff llywodraethu gomisiynu gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol eu hunain nac ychwaith 'Ddarpariaeth Amgen'.*

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod y dryswch hwn yn waeth yn sgil defnyddio'r term 'Darpariaeth Amgen' mewn rhywfaint o'r canllawiau anstatudol. Rhoddwyd y dasg o adolygu’r canllawiau hyn ac argymell diwygiadau i’r Grŵp Cyflawni ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol. Sefydlwyd y grŵp hwn i oruchwylio rhoi'r Fframwaith Gweithredu terfynol y cytunir arno ar waith.

Nid yw Llywodraeth Cymru'n meddwl ei bod yn briodol i ysgolion gomisiynu darpariaeth allanol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ymddygiad, er enghraifft gwersi gartref i blant sydd â ffobia ynglŷn â mynd i'r ysgol neu rai sy'n gwrthod mynd. Mae hyn wedi'i gynnwys yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru 'Gwaharddiadau o'r ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion'.

# Y Fframwaith Gweithredu

## Mynd ati fesul cam

Mae un adroddiad ar ôl y llall wedi dangos bod angen i’r llywodraeth genedlaethol arddel agwedd gryfach drwy sefydlu polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol. Serch hynny, hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried trefniadau addysg heblaw yn yr ysgol ac unedau cyfeirio disgyblion yn fater lleol ac felly nid oes llawer o dystiolaeth ar gael ynglŷn â pha bolisïau a gweithdrefnau sy'n debygol o gryfhau’r atebolrwydd a gwella'r deilliannau i ddysgwyr o'u cyflwyno ar sail Cymru gyfan.

Dyna pam mae Llywodraeth Cymru'n credu y byddai mynd ati fesul cam gan gynnwys datblygu canllawiau anstatudol a chatalog o'r opsiynau arferion gorau yn rhoi'r amser paratoi angenrheidiol i awdurdodau lleol ad-drefnu yn ôl y gofyn, cyn ystyried unrhyw ofynion statudol posibl.

Cyn sefydlu'r gofynion anstatudol a statudol, mae'r cynigion ar gyfer y tymor byr yn canolbwyntio ar yr angen i ehangu'r sylfaen dystiolaeth bresennol a datblygu opsiynau polisi enghreifftiol. Drwy wneud hyn, gall y Grŵp Cyflawni ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol sicrhau bod modd ymchwilio'n llawn i'r ffactorau sy'n effeithio ar weithredu polisiau cenedlaethol o ddydd i ddydd gyda'r sector i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

## Darpariaethau allweddol

Yn y gweithdai i randdeiliaid a gynhaliwyd ddechrau proses datblygu'r Fframwaith Gweithredu, dywedodd nifer eu bod yn awyddus i weld newid yn y sector ledled Cymru. Roedd y ceisiadau hyn am newid yn cynnwys annog Unedau Cyfeirio Disgyblion i gydweithio, cael gwell trefn casglu a rhannu gwybodaeth a mwy o sefydlogrwydd yn strwythur a threfniadaeth Unedau Cyfeirio Disgyblion a darparwyr eraill yn y maes.

Roedd y wybodaeth hon, ochr yn ochr â'r argymhellion i Lywodraeth Cymru, yn help i gynnig sylfaen ar gyfer cyfarfod cychwynnol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen; a'r atebion a ddatblygwyd gan Grŵp hwnnwl wrth iddo ymateb i'r prif ddarpariaethau yn y Fframwaith Gweithredu.

## Paneli addysg heblaw yn yr ysgol

Un peth cyffredin sy'n poeni'r sector addysg heblaw yn yr ysgol yw nad yw'r broses gyfeirio ar gyfer manteisio ar y ddarpariaeth hon yn ddigon cadarn a bod arferion anghyson ar waith drwy Gymru. Ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol ddigon o drefniadau rheoli ar waith i bob golwg i sicrhau bod y dysgwyr sy'n defnyddio'r ddarpariaeth wedi cael eu lleoli'n briodol, a bod ysgol y brif ffrwd wedi rhoi cynnig ar bob math arall o ymyriad.

Mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn ceisio cyflwyno trefniadau rheoli o'r fath drwy sefydlu paneli addysg heblaw yn yr ysgol. Paneli yw'r rhain sy'n cynnwys gweithwyr allweddol h.y. Seicolegwyr Addysg, Swyddogion Lles Addysg, Swyddogion Cynhwysiant, Penaethiaid ac Athrawon â Gofal mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ati, a gwaith y paneli hyn yw didoli a sicrhau bod cyfeiriadau'n briodol a monitro lleoliadau.

Mae Llywodraeth Cymru a’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen addysg heblaw yn yr ysgol yn meddwl bod sefydlu'r paneli yn gam cadarnhaol i atal dysgwyr agored i niwed rhag cael eu

lleoli'n amhriodol mewn unedau cyfeirio disgyblion neu mewn math arall o ddarpariaeth fel hyn. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno canllawiau sy'n argymell y dylai pob awdurdod lleol fabwysiadu'r drefn hon; ond mae Llywodraeth Cymru'n sylweddoli hefyd nad oes digon o dystiolaeth ar gael am yr hyn sy'n eu gwneud yn llwyddiannus ar hyn o bryd, ac felly bydd yn dadansoddi'r paneli addysg heblaw yn yr ysgol bresennol i'w helpu i ehangu'r sylfaen dystiolaeth.

## Hyfforddiant i bwyllgorau rheoli

Ym mis Chwefror 2015, daeth y rheoliadau sy'n berthnasol i bwyllgorau rheoli i rym. Er bod gan lawer o Unedau Cyfeirio Disgyblion bwyllgorau rheoli ar waith cyn cyflwyno'r rheoliadau, nid oedd gan bob un bwyllgor o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo eisoes i adolygu effeithiolrwydd pwyllgorau rheoli, ar ôl i'r gofynion ffurfiol gael cyfle i fwrw gwreiddiau. Bydd canlyniad yr adolygiad yn help i lywio'r gwaith deddfwriaethol posibl yn y tymor hir i godi statws a safonau Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Roedd adborth a gafwyd yn y cynadleddau i randdeiliaid hefyd yn dangos bod pryder am yr hyfforddiant sydd ar gael i aelodau pwyllgorau rheoli ac ymgynghorwyr her y consortia rhanbarthol ynghylch cyfrifoldebau'r Unedau Cyfeirio Disgyblion.

Er enghraifft, ni roddir cymorth a hyfforddiant i aelodau pwyllgorau rheoli sy'n cyfateb i'r hyn a gynigir i aelodau cyrff llywodraethu. Oherwydd hyn, nid yw pwyllgorau rheoli'n cynnig digon o her a chymorth i staff Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Athrawon â Gofal.

Er na fyddai'r modiwlau hyfforddi presennol a gynigir i gyrff llywodraethu'n briodol, am eu bod yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau nad ydynt yn berthnasol ar hyn o bryd i aelodau pwyllgorau rheoli, gallai'r mecanweithiau a'r deunyddiau cymorth sydd ar gael i lywodraethwyr ysgol gynnig templed ar gyfer estyn y cymorth. Gallai'r cymorth hwn gynnwys llawlyfrau i aelodau pwyllgorau rheoli, mynediad at rwydweithiau rhannu gwybodaeth a datblygu modiwlau hyfforddi sy'n canolbwyntio ar Unedau Cyfeirio Disgyblion.

## Fframweithiau comisiynu addysg heblaw yn yr ysgol

Yn ôl adroddiad Estyn 'Addysg Heblaw yn yr Ysgol' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016, mae rhai ysgolion ac awdurdodau lleol yn comisiynu gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol gan ddarparwyr preifat, heb fod yn ymwybodol eu bod yn gweithredu darpariaeth sydd heb ei chofrestru ac a allai fod yn anghyfreithlon. Er mwyn atal hyn, ac er mwyn sicrhau bod darpariaeth sy'n cyflawni'r meini prawf yn cael ei chofrestru'n briodol, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu fframweithiau comisiynu ar gyfer gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol.

Bydd y fframwaith comisiynu'n darparu set o ganllawiau i sefydliadau sy'n ceisio darparu gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol i awdurdod lleol.

Bydd gan unrhyw sefydliad sy'n dymuno darparu gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol i ddysgwyr y mae eu haddysg yn cael ei chynnal gan yr awdurdod lleol, set o ganllawiau o fewn y fframwaith ynglŷn â'r cyfrifoldebau y disgwylir iddynt eu hysgwyddo o ran addysg, diogelu a lles.

Bydd yr awdurdod lleol sy'n adrodd i'r panel addysg heblaw yn yr ysgol yn gyfrifol am gynnal yr holl archwiliadau angenrheidiol i sicrhau ei fod yn fodlon bod y sefydliad wedi cyflawni ei

ofynion. Ar ôl i'r awdurdod lleol gynnal yr archwiliadau hyn, caiff y panel gytuno ar statws 'cymeradwy' y sefydliad. Dylid darparu cronfa ddata ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn yr ardal leol.

Ar ôl cynnwys darparwr addysg heblaw yn yr ysgol ar gronfa ddata'r awdurdod lleol fel darparwr 'cymeradwy', bydd gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb i fonitro'r ddarpariaeth sydd ar gael yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth honno a bod yr holl ragofalon diogelu angenrheidiol yn dal yn addas.

Gofynnir i awdurdodau lleol ystyried datblygu eu fframweithiau comisiynu ar sail ranbarthol. Bydd gwneud hyn yn help i adnabod yn well y sefydliadau sy'n cyflawni'r meini prawf cofrestru, pan fydd lleoliadau trawsffiniol yn cael eu hystyried.

Bydd gofyn i ysgolion ac awdurdodau lleol sicrhau bod unrhyw gyfeiriad at wasanaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn cael ei wneud drwy 'ddarparwr cymeradwy'. Ym mhob achos lle y defnyddir gwasanaethau fel hyn, bydd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am y ddarpariaeth a dylid hysbysu’r panel cyfeirio ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol.

## Rhannu data a gwybodaeth

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau cyhoeddi data cyflawni ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion (Cyfnod Allweddol 4). Cafodd hyn ei ryddhau i ddechrau yn y datganiad ystadegol blynyddol am berfformiad yn ôl nodweddion disgyblion ym mis Mawrth 2016; mae hyn bellach wedi'i estyn i bob dysgwr sydd mewn addysg heblaw yn yr ysgol ac mae wedi dod yn rhan o'r datganiad cyflawni ystadegol a gyhoeddir bob hydref.

Cyflwynwyd y newidiadau hyn gan Lywodraeth Cymru gan ymateb i Brifysgol Caeredin, Estyn a’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol a oedd yn nodi bod diffyg strwythurau a mecanweithiau atebolrwydd clir a bod hynny'n un o'r meysydd niferus yr oedd angen ei wella yn y sector addysg heblaw yn yr ysgol

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr anawsterau sy'n gysylltiedig â chymharu dysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol â dysgwyr y brif ffrwd gan ddilyn dull 'tebyg at ei debyg'. O safbwynt ymarferol, ni fydd y rhan fwyaf o ddysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn dechrau o'r un llinell sylfaen â dysgwyr y brif ffrwd ac nid yw dangosyddion perfformiad allweddol, megis Lefel 2 Gynhwysol, yn adlewyrchu'r 'pellter a deithiwyd' i ddysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol a phwysigrwydd y gwaith y bydd staff yn ei wneud i fynd i'r afael â'r anghenion lles cymhleth a wynebir yn aml gan y garfan agored i niwed hon.

Gan fod ystyriaethau ynglŷn â dyfodol casglu data Llywodraeth Cymru fel rhan o 'Ddyfodol Llwyddiannus' ar y gweill; cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol i beidio ag adolygu pa ddata y dylid eu casglu a sut y dylid eu defnyddio.

Yn hytrach, mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi canolbwyntio'i drafodaethau ar sut mae data am y maes addysg hwn ac unedau cyfeirio disgyblion yn cael eu casglu a phwy a ddylai fod yn 'berchen' ar y data hyn ac felly'n atebol am ddeilliannau. Yn ystod trafodaethau’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, nodwyd bod angen rhagor o waith sylfaenol ym maes casglu data. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob lleoliad uned cyfeirio arbennig a phob lleoliad addysg heblaw yn yr ysgol yn gallu cael gafael ar systemau rheoli gwybodaeth canolog a'u bod yn ffurfioli gweithdrefnau rhannu gwybodaeth ddyddiol h.y. cofnodi presenoldeb.

Ar ôl sefydlu elfennau sylfaenol casglu data, bydd lleoliadau unedau cyfeirio disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol mewn gwell sefyllfa i adolygu eu deilliannau ac asesu anghenion eu darpariaeth a'u dysgwyr.

Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, bydd Grŵp Cyflawni addysg heblaw yn yr ysgol yn sicrhau bod anghenion a phryderon y sector addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu hadlewyrchu yn y trafodaethau ehangach sy'n cael eu cynnal i ddatblygu Dyfodol Llwyddiannus a'i roi ar waith.

# Rhaglenni/diwygiadau addysg ehangach

## Dyfodol Llwyddiannus

Dylai dysgwyr sy'n manteisio ar wasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol allu ailintegreiddio i ysgolion y brif ffrwd neu bontio i leoliadau AB pan fydd hynny'n briodol, ond nid yw hyn yn debygol o ddigwydd heblaw bod eu hanghenion addysgol yn cael statws cyfwerth â'u hanghenion bugeiliol neu eu lles. Ac ystyried yr hyblygrwydd newydd sy'n cael ei gynnwys yn y cwricwlwm diwygiedig drwy gyfrwng diwygio Dyfodol Llwyddiannus, dylid adolygu gallu Unedau Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol eraill i ddatgymhwyso'r cwricwlwm. Mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnig y dylai dileu'r gallu i ddatgymhwyso'r cwricwlwm fod yn destun ymgynghori fel rhan o'r Fframwaith Gweithredu.

Mae Llywodraeth Cymru a’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn sylweddoli mai un o gryfderau addysg heblaw yn yr ysgol yw ei bod yn hyblyg. Mae'n debygol ar brydiau y bydd yn briodol datgymhwyso'r cwricwlwm ar gyfer dysgwr unigol.

Yr opsiwn y byddai’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ei argymell fyddai dileu'r gallu i ddatgymhwyso'r cwricwlwm ar draws y sefydliad cyfan. Yn hytrach, byddai Llywodraeth Cymru'n awyddus i gyflwyno trefn reoli dynnach lle byddai modd datgymhwyso'r cwricwlwm ar sail dysgwyr unigol, yn hytrach nag ar sail y lleoliad yn ei gyfanrwydd.

Un o brif ddarpariaethau'r Fframwaith Gweithredu yw sefydlu paneli mynediad. Barn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yw mai cyfrifoldeb y paneli mynediad fyddai barnu pa mor addas fyddai datgymhwyso'r cwricwlwm i ddysgwr unigol. Dylid adolygu'r penderfyniad hwn o bryd i'w gilydd, gan gadw cofnodion llawn a chywir, y gallai Estyn graffu arnynt yn ystod arolygiad.

## Cydweithio a gwaith partneriaeth

Mae maint a threfniadaeth y rhan fwyaf o unedau cyfeirio disgyblion (a mathau eraill o wasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol), yn ei gwneud yn anodd cynnig y cwricwlwm llawn. Er mwyn cyflawni gofynion y cwricwlwm newydd, bydd yn hanfodol i unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol eraill gydweithio ag ysgolion lleol a lleoliadau Addysg Bellach.

Er mwyn darparu lefel o degwch ar gyfer gwasanaethau addysg heblaw yn yr ysgol, mae’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn credu y dylid cynnwys darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol, unedau cyfeirio disgyblion yn benodol, yn y gwaith parhaus i ddatblygu systemau hunan-wella. Dylid ceisio gwneud hyn drwy frocera cefnogaeth gan asiantaethau eraill a rhannu arbenigedd a gwybodaeth drwy bartneriaethau strategol o fewn ardaloedd y consortia rhanbarthol.

Mae adroddiad y Comisiynydd Plant 'Hawl i Ddysgu' ac adborth yn sgil cynadleddau'r Unedau Cyfeirio Disgyblion wedi dangos bod gan lawer o fewn y sector rwydweithiau sydd heb eu datblygu’n ddigonol yn eu hysgolion lleol, eu hawdurdod lleol, y consortiwm rhanbarthol a hyd yn oed â darparwyr eraill sy’n cynnig addysg heblaw yn yr ysgol.

Gan mai math o ysgol yn y brif ffrwd yw Uned Cyfeirio Disgyblion, yn ôl y gyfraith, yn ogystal â bod yn fath o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol, dylai fod gan y rhan fwyaf o Unedau Cyfeirio Disgyblion lwybrau eisoes at eu consortiwm rhanbarthol. Dylid archwilio'r llwybrau hyn fel mecanwaith i feithrin y cydweithio a'r gwaith partneriaeth sydd eu hangen er

mwyn galluogi Unedau Cyfeirio Disgyblion i rannu a mabwysiadu arferion da, o fewn y 'System Hunan-Wella' ac i ddiwallu anghenion addysg dysgwyr agored i niwed drwy rannu cyfleusterau ac arbenigedd.

Serch hynny, mae'r Model Gweithio Rhanbarthol Cenedlaethol yn darparu ar gyfer cynnwys consortia yn narpariaeth 'ehangach' addysg heblaw yn yr ysgol h.y. darpariaeth y tu allan i Unedau Cyfeirio Disgyblion. Er mwyn sicrhau ymagwedd gyson o fewn y sector addysg heblaw yn yr ysgol, bydd y Grwp Cyflawni yn awyddus i archwilio opsiynau ar gyfer cynnwys darpariaeth o fewn cylch gwaith y Model Gweithio Rhanbarthol Cenedlaethol.

## Digwyddiadau ymgynghori

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y camau gweithredu a gynigir yma ac yn atodiad 1 yn cynrychioli'r diwygiadau mwyaf i bolisïau'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yng Nghymru.

Rydym yn awyddus i barhau i gydweithredu wrth ddatblygu'r cynigion hyn, ac felly byddwn yn cynnig cyfleoedd i feithrin cysylltiadau â chynrychiolwyr ar draws y sector yn ystod y broses ymgynghori.

Bydd manylion am y digwyddiadau ymgynghori hyn ar gael cyn bo hir drwy dudalen Llywodraeth Cymru ar ddigwyddiadau ymgynghori ac yng nghylchlythyr Dysg.

## Ymatebion

Rhestrir cwestiynau penodol yn y ffurflen ymateb ar wahân ac fe'ch gwahoddir i gynnig atebion i'r cwestiynau hyn, neu gynnig sylwadau mwy cyffredinol. Cewch gyflwyno hyn ar ffurf electronig neu gopi cael.

# Atodiad: Fframwaith Gweithredu ar gyfer darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol – y cynigion llawn

Yn y papur hwn, mae'r camau y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu cymryd sydd yn y *Fframwaith Gweithredu* wedi’u trefnu yn ôl darpariaethau allweddol, ac mae'n dweud sut y bwriedir ymateb i'r gwahanol argymhellion a gafodd Llywodraeth Cymru o nifer o ffynonellau.

## Darpariaeth allweddol: Paneli Mynediad

| Tymor byr, canol neu hir | Argymhelliad | Cam arfaethedidg |
|---|---|---|
| Tymor byr | *Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol* | LlC i gomisiynu dadansoddiad o baneli mynediad/paneli atgyfeirio ALI. |
| Tymor byr | Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu adnoddau i hybu gwaith consortiwm effeithiol ar lefel awdurdodau lleol i rannu strategaethau ar gyfer ailintegreiddio (Caeredin: A12)<br><br>Dylid casglu a lledaenu enghreifftiau o strategaethau effeithiol ar gyfer ailintegreiddio (Caeredin: A20) | Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad o'r arferion gorau wrth gyfeirio at Addysg Heblaw yn yr Ysgol a gweithdrefnau ailintegreiddio |
| Tymor canol | Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu adnoddau i hybu gwaith consortiwm effeithiol ar lefel awdurdodau lleol i rannu strategaethau ar gyfer ailintegreiddio (Caeredin: A12)<br><br>Dylid casglu a lledaenu enghreifftiau o strategaethau effeithiol ar gyfer ailintegreiddio (Caeredin: A20) | Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau anstatudol ar sefydlu paneli Addysg Heblaw yn yr Ysgol mewn awdurdodau lleol yn ogystal â gweithdrefnau atgyfeirio ac ailintegreiddio. |
| Tymor hir | *Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol* | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu swyddogaethau statudol paneli Addysg Heblaw yn yr Ysgol mewn deddfwriaeth sylfaenol. |

## Darpariaeth allweddol: Fframwaith Comisiynu

| Tymor byr, canol neu hir | Argymhelliad | Cam arfaethedig |
|---|---|---|
| Tymor byr | Annog Awdurdodau Lleol i ddatblygu nodau a dibenion clir ar gyfer y ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Caeredin: A15)<br><br>Cyhoeddi canllawiau newydd am gomisiynu darpariaeth amgen (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A9) | Dylai Llywodraeth Cymru wneud ymchwil i'r arferion gorau ar gyfer fframweithiau comisiynu a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol. |
| Tymor canol | Cyhoeddi canllawiau newydd am gomisiynu darpariaeth amgen (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A9) | Llywodraeth Cymru i ddatblygu canllawiau anstatudol am ddatblygu fframweithiau comisiynu a gofynion ansawdd y ddarpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol sy'n cynnwys monitro lleoliadau'n barhaus. |
| Tymor canol | Cyhoeddi canllawiau newydd am gomisiynu darpariaeth amgen (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A9) | Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad o effeithiolrwydd y fframweithiau comisiynu gan gynnwys dynodi ysgolion annibynnol sydd heb eu cofrestru |
| Tymor hir | Cyhoeddi canllawiau newydd am gomisiynu darpariaeth amgen (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A9) | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gofyniad statudol i awdurdodau lleol sefydlu fframweithiau comisiynu |

## Darpariaeth allweddol: Cymorth i'r pwyllgorau rheoli

| Tymor byr, canol neu hir | Argymhelliad | Cam arfaethedidg |
|---|---|---|
| Tymor byr | Gweithio gyda chonsortia i roi cefnogaeth a her gadarn i reolwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion a phwyllgorau Rheoli (Estyn 015: A7) | Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad o dan arweiniad CLlLC o anghenion hyfforddi pwyllgorau rheoli. |
| Tymor byr | Gwneud pwyllgorau rheoli'n statudol a chyhoeddi canllawiau ategol (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr | Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai ehangu'r cymorth sydd ar |

| | | |
|---|---|---|
| | Ysgol 2011: A8) | gael, drwy gyfrwng gwahanol randdeiliaid, i aelodau pwyllgorau rheoli. |
| Tymor byr | Gweithio gyda chonsortia i roi cefnogaeth a her gadarn i reolwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion a phwyllgorau Rheoli (Estyn 015: A7) | Llywodraeth Cymru i gomisiynu adolygiad o effeithiolrwydd pwyllgorau rheoli. |
| Tymor canol | Gweithio gyda'r consortia i roi cefnogaeth a her gadarn i reolwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion a phwyllgorau Rheoli (estyn 015: A7)<br><br>Gwneud pwyllgorau rheoli'n statudol a chyhoeddi canllawiau ategol (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A8) | Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer helpu i deilwra a darparu modiwlau hyfforddi penodol i Unedau Cyfeirio Disgyblion yng nghyswllt rhanddeiliaid y sector cyhoeddus. |
| Tymor canol | Gwneud pwyllgorau rheoli'n statudol a chyhoeddi canllawiau ategol (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A8) | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried trefniadau ar gyfer Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Awdurdodau lleol i wella adnoddau mewn ffordd gynaliadwy megis dysgu proffesiynol, seilwaith MIS, hyfforddiant i bwyllgorau rheoli ac ati. |

## Darpariaeth allweddol: Data a gwybodaeth

| **Tymor byr, canol neu hir** | **Argymhelliad** | **Cam arfaethedig** |
|---|---|---|
| Tymor byr | Nodi'n glir gyfrifoldebau ysgolion at ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru gyda hwy (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A15) | Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi data cofrestru a gwahardd disgyblion. |
| Tymor byr | Nodi'n glir gyfrifoldebau ysgolion at ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru gyda hwy (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A15) | Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad o arferion cofrestru disgyblion ledled Cymru er mwyn gallu casglu data'n well a sefydlu'r arferion gorau o ran atebolrwydd a chanlyniadau. |
| Tymor byr | Casglu a lledaenu data am ganlyniadau disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Caeredin; A21)<br><br>Cryfhau'r canllawiau i Awdurdodau Lleol ac ysgolion ynghylch y gofyniad i gadw cofnodion o niferoedd y disgyblion sy'n cael Addysg Heblaw yn yr Ysgol sy'n | Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Gyrfa Cymru a'r Awdurdodau Lleol i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer gwella'r ffordd y caiff data eu casglu gan gyn ddysgwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol i ddynodi ymyriadau effeithiol a llywio'r ddarpariaeth yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | mynd yn eu blaen i ddod yn NEET (Estyn 2016: A1) | |
| Tymor canol | *Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol* | Dylai Llywodraeth Cymru ac Estyn ddatblygu protocol ac amserlen newydd ar gyfer casglu a rhannu gwybodaeth |
| Tymor canol | Parhau â'r broses ar gyfer cofrestru a datgofrestru Unedau Cyfeirio Disgyblion a'i hailgadarnhau drwy archwilio darpariaeth yr Awdurdodau Lleol yn rheolaidd (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A7) | Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau anstatudol am weithdrefnau agor a chau Unedau Cyfeirio Disgyblion |
| Tymor canol | Cynnig canllawiau clir am gofrestru a monitro cynnydd disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Caeredin: A9) | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno gweithdrefnau safonol, gan newid rheoliadau cofrestru disgyblion yn gefn i hynny, ar gyfer cofrestru dysgwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol |
| Tymor canol | Datblygu fframwaith meincnodi ar gyfer gwerthuso canlyniadau a gwerth am arian (Caeredin: A15) (Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A13) | Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o ddiwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ynglŷn â chasglu data gan wasanaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol wrth gyflwyno gweithdrefnau safonol |
| Tymor hir | Datblygu fframwaith meincnodi ar gyfer gwerthuso canlyniadau a gwerth am arian (Caeredin: A15) (Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A13) | A dibynnu ar ganlyniad ystyriaethau ynghylch diwygio'r ddeddfwriaeth casglu data, bydd Llywodraeth Cymru'n diwygio'r rheoliadau presennol fel rhan o'r cynigion deddfwriaethol ehangach |

## Darpariaeth allweddol: Dyfodol Llwyddiannus

| **Tymor byr, canol neu hir** | **Argymhelliad** | **Cam arfaethedig** |
|---|---|---|
| Tymor canol | Sicrhau bod rôl yr Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael ei hystyried a'i chynnwys yn llawn yn argymhellion Donaldson (CCfW:A4) | Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ynglŷn â'r opsiynau posibl sy'n berthnasol i ddatgymhwyso'r cwricwlwm |
| Tymor canol | Sicrhau bod rôl yr Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael ei hystyried a'i chynnwys yn llawn yn argymhellion Donaldson (CCfW:A4) | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol gyfredol ynghylch datgymhwyso'r cwrwicwlwm fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm ehangach |
| Tymor hir | Datblygu fframwaith meincnodi ar gyfer gwerthuso canlyniadau a gwerth am arian (Caeredin: A15) | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhagor sut y gellir mesur canlyniadau 'meddal' a'u cynnwys |

| | | |
|---|---|---|
| | (Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A13) | mewn fframwaith meincnodi i Unedau Cyfeirio Disgyblion a sut y bydd hyn yn cael ei gysoni'n briodol â'r gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o 'Ddyfodol Llwyddiannus' |

## Darpariaeth allweddol: Cydweithio

| Tymor byr, canol neu hir | Argymhelliad | Cam arfaethedidg |
|---|---|---|
| Tymor canol | Darparu canllawiau fframwaith am rôl Unedau Cyfeirio Disgyblion fel rhan o'r continwwm darpariaeth (Estyn 2015: A8) | Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r consortia rhanbarthol i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer cryfhau eto'r rhwydweithiau partneriaeth rhwng Unedau Cyfeirio Disgyblion a darparwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac Awdurdodau Lleol ac ysgolion |

## Eraill

| Tymor byr, canol neu hir | Argymhelliad | Cam arfaethedidg |
|---|---|---|
| Tymor byr | Gweithio gyda'r consortia i sicrhau bod anghenion Unedau Cyfeirio Disgyblion yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y consortia (CCfW: A1)<br><br>Gweithio gyda'r consortia i roi cefnogaeth a her gadarn i reolwyr Unedau Cyfeirio Disgyblion a phwyllgorau Rheoli (Estyn 015: A7) | Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r consortia rhanbarthol i asesu'r gofynion dysgu a datblygu ar gyfer ymgynghorwyr her sy'n gweithio gydag Unedau Cyfeirio Disgyblion |
| Tymor byr | Diwygio'r fformiwlâu i gynnwys disgyblion sydd wedi'u cofrestru dim ond mewn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A4) | Dylai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau bod PDG ar gael i Unedau Cyfeirio Disgyblion ar gyfer disgyblion sydd wedi'u cofrestru'n sengl ac ystyried diwygio'r canllawiau PDG. |
| Tymor byr | *Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol* | Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r broses ymgeisio ac ariannu ar gyfer Ysgolion yr 21$^{ain}$Ganrif a'r broses ariannu i sicrhau bod Unedau Cyfeirio Disgyblion (a lleoliadau Addysg Heblaw yn yr Ysgol eraill lle bo hynny'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | briodol) yn cael eu hystyried ym midiau'r awdurdodau lleol |
| Tymor canol | Nodi'n glir gyfrifoldebau ysgolion at ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru gyda hwy (adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A15) | Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau am gyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd ar draws y ddarpariaeth ac awdurdodau lleol gan gynnwys y rheini sy'n gyfrifol am gofrestru. |
| Tymor canol | Sicrhau bod staff Unedau Cyfeirio Disgyblion yn elwa o strategaethau cenedlaethol i wella addysgu ac arweinyddiaeth (Estyn 2015: A10)<br><br>Sicrhau bod y rheini sy'n darparu Addysg Heblaw yn yr Ysgol wrth ddatblygu elfennau newydd anghenion ymddygiad a dysgu ychwanegol a'u rhoi ar waith o fewn Datblygiad Proffesiynol Parhaus i ymarferwyr (Adolygiad o Addysg Heblaw yn yr Ysgol 2011: A2) | Dylai Llywodraeth Cymru a'r Grŵp Darparu ystyried sut y gellid helpu staff Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol, gan gynnwys arweinyddion, i ddatblygu eu gyrfa'n unol â'r cynigion a ddatblygir drwy gyfrwng yr ymagwedd genedlaethol at ddysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth ac yng nghyswllt ag arloeswyr ac ysgolion sy'n bartneriaid. |
| Tymor hir | *Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol* | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried datblygu deddfwriaeth sylfaenol sy'n cynnwys cyflwyno strwythur trefniadaethol newydd ar gyfer lleoliadau addysg a elwir ar hyn o bryd yn Unedau Cyfeirio Disgyblion |
| Tymor hir | *Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol* | A dibynnu ar ddrafftio deddfwriaeth sylfaenol, bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu rheoliadau i ddiwygio'r is-ddeddfwriaeth bresennol |
| Tymor hir | *Nid yw'r cam arfaethedig yn cyfeirio at ddim argymhelliad penodol, ond cytunwyd arno fel rhan o waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Heblaw yn yr Ysgol* | Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig drwy gyflwyno canllawiau statudol |